**DATGANIAD I'R WASG**

**Dewi yn y 'Diff: Dathliad Cymunedol o Ddydd Gŵyl Dewi yng Nghaerdydd**

Mae Menter Caerdydd, mewn partneriaeth â FOR Cardiff a St David's Dewi Sant, yn cyflwyno **Dewi yn y 'Diff**, rhaglen ddiwylliannol a chymunedol fywiog i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ynghanol y brifddinas. Nod y prosiect yw dod â chymunedau Caerdydd ynghyd drwy gyfres o weithgareddau creadigol sy'n dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Cynhelir y gweithgareddau diolch i nawdd gan Gronfa Gymorth Beilot Dydd Gŵyl Dewi 2026 Llywodraeth Cymru.

Bydd llawr uchaf St David's Dewi Sant yn gartref i Lwyfan Cymunedol arbennig, lle bydd unigolion, corau a grwpiau cymunedol yn perfformio ym mhrysurdeb y ganolfan siopa. Bydd siopwyr hefyd yn cael eu diddanu gan fflachmob bywiog fydd yn wledd i'r glust a'r llygad ar fore Sul. Yn ogystal, bydd ardal Bwrlwm FOR Families yn cynnig llu o weithgareddau amrywiol gan gynnwys celf a chrefft, peintio wyneb, sesiynau Amser Stori a gwersi byrion er mwyn i rieni ddysgu ychydig o Gymraeg syml. Bydd hon yn ardal i deuluoedd ddod i ddathlu Gŵyl Ddewi mewn awyrgylch gynnes a chroesawgar.

Yn ogystal â'r dathliadau ar 1 Mawrth, mae Menter Caerdydd wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau fel rhan o'r rhaglen gymunedol sy'n ymgysylltu â chymunedau ledled y ddinas.  Cynhelir twmpath traddodiadol yng Nghanolfan Oasis, cyngerdd gymunedol yn Rhiwbeina a chyfres o weithdai i gefnogi busnesau gyda'r staff yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith.

Meddai Prif Weithredwr Menter Caerdydd, Heulyn Rees, "Bydd rhaglen 'Dewi yn y 'Diff' yn dod â theuluoedd, cymunedau lleol a busnesau at ei gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch i arian gan Gronfa Gymorth Beilot Dydd Gŵyl Dewi 2026, mae tîm prosiect Menter Caerdydd a'i bartneriaid wedi cydweithio i greu cyfres o ddigwyddiadau fydd yn adlewyrchu diwylliant y Gymru fodern yn ei holl amrywiaeth."

Meddai Carolyn Brownell, Cyfarwyddwr Gweithredol FOR Caerdydd: "Rydym yn falch o weithio gyda Menter Caerdydd fel rhan o ymgyrch Little Things FOR Caerdydd. Mae maes chwarae FOR Families Bwrlwm yn cynnig y cyfle perffaith i deuluoedd ddod ynghyd i ymlacio a dathlu diwylliant Cymru mewn gofod chwarae dwyieithog."

**Diwedd**

Am fwy o wybodaeth: post@mentercaerdydd.cymru / 029 20 689888

**PRESS RELEASE**

**Dewi in the 'Diff: A Community Celebration of St David's Day in Cardiff**

Menter Caerdydd, in partnership with FOR Cardiff and St David's Dewi Sant, is presenting **Dewi in the 'Diff**, a vibrant cultural and community programme to celebrate St David's Day in the heart of the capital. The aim of the project is to bring Cardiff's communities together through a series of creative activities that celebrate the Welsh language and culture. The activities are made possible thanks to funding from the Welsh Government's St David's Day 2026: Pilot Support Fund.

St David's Dewi Sant will host a special Community Stage on the upper floor, where individuals, choirs and community groups will perform in the busy shopping centre. Visitors will also be entertained by a lively flashmob which will brighten up their Sunday morning shopping trip. In addition, the FOR Families Bwrlwm play area will offer a range of activities including arts and crafts, face painting, storytime sessions and short lessons to help parents learn simple Welsh phrases and songs. It will be a space for families to celebrate St David's Day in a warm and welcoming atmosphere for people of all ages.

In addition to the celebrations on 1 March, Menter Caerdydd is organising a series of events as part of the wider community programme, engaging with communities across the city. Among these is a traditional *twmpath* (folk dance) at the Oasis Centre, a community concert in Rhiwbina and a series of workshops to support businesses, giving staff the opportunity to learn Welsh or improve their language skills.

Heulyn Rees, Chief Executive of Menter Caerdydd, said: "The 'Dewi in the 'Diff' programme will bring families, local communities and businesses together to celebrate St David's Day. Thanks to funding from the St David's Day 2026: Pilot Support Fund, Menter Caerdydd's project team and its partners have worked together to create a series of events that reflect the culture of modern Wales in all its diversity."

Carolyn Brownell, Executive Director at FOR Cardiff said: "We are delighted to be working with Menter Caerdydd as part of FOR Cardiff's Little Things campaign. The FOR Families Bwrlwm play area provides the perfect opportunity for families to come together in a relaxed, bilingual play space and celebrate Welsh culture."

**Ends**

For further information: post@mentercaerdydd.cymru / 029 20 689888